# Micro-gymwysterau Meddwl Creadigol a Beirniadol

Sheila Godfrey a Nikki Mealyou, Edinburgh College

## Rhagarweiniad a chyd-destun

Yn yr Alban, mae pob coleg a chorff dyfarnu credyd arall yn gallu gosod gwerth ar gyfer cymwysterau er mwyn eu galluogi i fod ar Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF). O fewn y DU, mae'r cyfle hwn i osod gwerth credyd yn unigryw ac mae'n cael ei oruchwylio gan Bartneriaeth SCQF sy'n sicrhau ansawdd pob dyfarniad â gwerth credyd trwy broses gyflwyno a derbyn gadarn a manwl.

Mae gosod gwerth ar gyfer credyd yn caniatáu i Goleg Caeredin gael y rhyddid i ddylunio dyfarniadau creadigol heb gael eu cyfyngu gan feini prawf y sefydliadau dyfarnu, sydd weithiau'n anhyblyg ac yn rhagnodol.

Yn 2019, creodd y Coleg gyfres o gymwysterau arloesol ag iddynt werth o ran credyd, â'r nod o ddatblygu meddwl creadigol a beirniadol ynghyd â meta-sgiliau. Roedd y cymwysterau hyn yn cynnwys dysgu seiliedig ar brosiectau yn bennaf, pob un wedi'i ddylunio i ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu meta-sgiliau ac arferion cadarn o ran strategaethau meddwl gwybyddol y gellid eu defnyddio mewn unrhyw bwnc neu sefyllfa benodol. Mae'r dyfarniadau a gymeradwywyd yn gynnyrch tair blynedd o ymchwil, gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr ym meysydd metawybyddiaeth, addysg a niwrowyddoniaeth.

## Datblygu sgiliau meddwl beirniadol dysgwyr

Mae'r dyfarniadau ar Lefelau SCQF 1 – 7 (Lefelau 1 – 4 ar y fframweithiau ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr) er mwyn galluogi'r dyfarniadau i fod yn briodol ar gyfer pob grŵp oedran (o ddisgyblion ysgol gynradd), ar draws pob lefel gallu a'u cyflwyno ar draws y sector addysg eang gan gynnwys ysgolion, colegau, a thrwy grwpiau addysg cymunedol a hyfforddiant sefydliadol. Mae pob un o'r cymwysterau'n cynnwys 5 elfen sy'n mynd â dysgwyr ar daith archwilio o ddulliau meddwl effeithiol er mwyn gofyn cwestiynau, dod o hyd i atebion neu ddarganfod safbwyntiau newydd. Mae pob elfen rhwng 3 ac 11 credyd, gyda Lefel 5 fel arfer yn fwy na'r elfennau Lefel 1-4. Mae'r dyfarniad Lefel 5 llawn yn 34 credyd, ac mae pob un o'r dyfarniadau Lefel 1-4 yn 24 credyd.

| | | **Lefel(au) SCQF** | **Credydau** |
|---|---|---|---|
| **Elfennau** | 1. Archwilio a Pharatoi | 1 - 6 | 7 |
| | | 7 | 11 |
| | 2. Datblygu | 1 - 6 | 5 |
| | | 7 | 6 |
| | 3. Goleuo | 1 - 6 | 5 |
| | | 7 | 5 |
| | 4. Dilysu | 1 - 6 | 4 |
| | | 7 | 6 |
| | 5. Adfyfyrio | 1 - 6 | 3 |
| | | 7 | 6 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Meddwl Creadigol a Beirniadol | 1 - 6 | 24 |
| | | 7 | 34 |

Mae'r cymwysterau Meddwl Creadigol a Beirniadol wedi datblygu ers eu cyflwyno gyntaf yn 2021. Yn dilyn adborth gan ysgol, fe wnaethon ni newid yr enw i Feddwl Creadigol a Beirniadol (o'r teitl gwreiddiol Gadewch i Ni Feddwl yn Greadigol!). Hefyd yn ystod 2024/25, penderfynon ni osod gwerth credydau ar gyfer pob uned (elfen), er mwyn caniatáu i ymgeiswyr nad ydynt o bosibl yn cyflawni'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd, gael eu hardystio am yr unedau y maent yn eu cyflawni. Mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr o ysgolion (S4 i S6), ond rydym wedi cael rhai ymgeiswyr mewnol ac o'r Orielau Cenedlaethol. Y gyfradd llwyddiant yw 74% (397 o gofrestriadau) lle mae'r ymgeiswyr wedi cwblhau cymhwyster llawn.

> “..rydym bellach yn cynnig cymwysterau SCQF Lefel 5, 6 a 7 mewn Meddwl Creadigol a Beirniadol. Mae'r cynnig hwn yn gynyddol boblogaidd ymhlith ein myfyrwyr sy'n cydnabod, ac yn gwerthfawrogi’r sgiliau trosglwyddadwy maen nhw'n eu dysgu drwy'r cwrs.”
>
> Pennaeth,
> Ysgol Uwchradd Lasswade

**Datblygu sgiliau meddwl beirniadol addysgwyr**

Roedden ni hefyd o'r farn bod angen i addysgwyr eu hunain ddeall sut i gyflwyno'n wahanol er mwyn datblygu'r sgiliau hyn o fewn eu meysydd pwnc eu hunain.

Ar y pwynt hwnnw, fe wnaethon ni edrych ar bapur Sefydliad Gwaddol Addysg y DU ynghylch metawybyddiaeth yn yr ystafell ddosbarth i ddatblygu'r cymhwyster addysgu. Edrychodd Sefydliad Gwaddol Addysg y DU yn fanwl ar fwy na 40 mlynedd o ymchwil i fetawybyddiaeth a gwnaeth 7 argymhelliad ymarferol:

- Dylai athrawon feddu ar y ddealltwriaeth a'r sgiliau proffesiynol i ddatblygu gwybodaeth fetawybyddol eu dysgwyr
- Dylai athrawon addysgu strategaethau metawybyddol yn benodol, gan gynnwys sut i gynllunio, monitro a gwerthuso eu dysgu
- Dylai athrawon fodelu eu meddwl eu hunain i gefnogi dysgwyr wrth gynllunio, monitro a gwerthuso eu dysgu
- Dylai athrawon osod lefel briodol o her i ddatblygu hunanreoleiddio a metawybyddiaeth dysgwyr
- Dylai athrawon hyrwyddo sgiliau metawybyddol yn yr ystafell ddosbarth
- Dylai athrawon ddysgu eu dysgwyr yn benodol sut i drefnu a rheoli eu dysgu'n annibynnol
- Dylai ysgolion gynorthwyo athrawon i ddatblygu eu gwybodaeth am y dulliau hyn a disgwyl iddynt gael eu gweithredu'n briodol

Roeddem yn cydnabod, yn ogystal â gallu cyflwyno deunydd pwnc a sgiliau, fod gan athrawon drydedd rôl bwysig: meithrin meddwl creadigol a beirniadol a galluoedd eraill.

Fe wnaethom gynllunio'r cymhwyster Addysgu Meddwl Creadigol a Beirniadol, SCQF Lefel 10 (Lefel 6 ar y fframweithiau ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr), i alluogi a grymuso athrawon i ddylunio, datblygu a chyflwyno dulliau addysgeg hyblyg sy'n galluogi sgiliau meddwl dwfn gan gynnwys meddwl creadigol a beirniadol, metawybyddiaeth a rhesymu moesegol. Yn y modd hwn, gall athrawon alluogi dysgwyr i ddeall y cwricwlwm yn well a'i gymhwyso er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer dysgu gydol oes. Nodwedd o'r dyfarniad yw proses asesu arloesol sy'n sicrhau bod y dyfarniad yn datblygu sgiliau addysgwyr ac yn eu darparu â phecyn cymorth i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

Rydym wedi cynnig Addysgu Meddwl Creadigol a Beirniadol ers 2021 i ymgeiswyr mewnol ac allanol, gan gynnwys cyflwyno i addysgwyr o'r Orielau Cenedlaethol, Heddlu'r Alban, Cyngor Midlothian a Chyngor Caeredin, yn ogystal ag ysgolion a sefydliadau unigol (rhestr lawn a ddarperir isod). Y gyfradd llwyddiant ar gyfer y cymhwyster yw 85% (99 o gofrestriadau) o'r rhai sy'n cwblhau'r cymhwyster.

Rydym wedi cyflwyno'r cymhwyster i dimau cyfan o fewn Coleg Caeredin ac wedi cael nifer o staff o sefydliadau unigol sydd wedi cofrestru, ar ôl clywed canlyniadau cadarnhaol gan gydweithwyr llwyddiannus sydd wedi cyflawni'r dyfarniad. Mae nifer cynyddol o staff ysgolion uwchradd yn ymgymryd â'r dyfarniad mewn ymateb i ofynion yr ystafell ddosbarth sy'n newid yn barhaus. Nodwyd fod y wybodaeth sylfaenol, y sgiliau, y dysgu cydweithredol a'r pecyn offer o gyflwynwyd i gyfranogwyr wedi bod o fudd mawr i ddysgwyr y cwrs.

"Mae'r cwrs hwn wedi cael effaith enfawr ar ddatblygiad fy arferion addysgu, yn ogystal ag ymgysylltiad a dealltwriaeth fy nisgyblion. Rwyf wedi bod yn gweithredu strategaethau a gweithgareddau rwyf wedi'u cyflwyno yn y cwrs gyda fy myfyrwyr drwy gydol y flwyddyn ac rwyf wedi eu gweld yn tyfu o ran hyder ac ymwybyddiaeth o'r meta-sgiliau."
Rebecca Ling,
Ysgol Uwchradd Hawick

"Rhai o'r pethau pwysicaf rydw i wedi'u cael o hyn yw sut mae pobl yn dysgu, meithrin galluoedd a chynllunio'n fwy creadigol, ond a dweud y gwir roedd pob gwers yn creu effaith. Roedd y ffordd y cyflwynodd Sheila y cwrs mor drawiadol…"
Jennifer Fisher-King,
Coleg Heddlu'r Alban

"Rwyf bellach wedi dod yn hwylusydd meddwl, nid dim ond yn athro fy mhwnc."
Drew McDougal,
Coleg Caeredin

"Roeddwn i bob amser yn gwybod bod angen i ni fod yn fwy creadigol yn ein haddysgu; mae'n amhosibl disgrifio gwerth y cwrs hwn o ran sut mae'n cysylltu â'r hyn a wnawn bob dydd. Yn y bôn, dyma'r hyn yr ydym wedi bod ei angen erioed."
Carolyn McGregor,
Ysgol Gynradd Clovenstone

Rydym yn falch iawn o ddweud nad ydym erioed wedi cael unrhyw sylwadau negyddol am y cymhwyster na sut y’i cyflwynir. Mae dargadwedd a chyrhaeddiad yn sylweddol uwch na'r disgwyliadau cychwynnol, ac fe wnaeth Addysg yr Alban gydnabod Addysgu Meddwl Creadigol a Beirniadol fel catalydd cadarnhaol ar gyfer newid yn yr ystafell ddosbarth.

Mae ein cyfres o gymwysterau meddwl creadigol a beirniadol a gynlluniwyd ac a achredwyd gan Goleg Caeredin hefyd yn cynnwys:

- Datblygu Sgiliau Meddwl Creadigol a Beirniadol mewn Arweinyddiaeth, SCQF Lefel 10, 38 credyd
- Ysgrifennu Teclynnau Asesu Creadigol a Hyblyg, Lefel 9 SCQF, 17 credyd.

Ni chafodd y dyfarniadau eu datblygu gyda micro-gymwysterau mewn golwg, ond yn hytrach fel rhan o'n dull ehangach o ddatblygu cymwysterau sy'n ymateb i anghenion cymdeithas a rhoi i ddysgwyr y wybodaeth, y sgiliau a'r strategaethau meddwl sydd eu hangen arnynt i fod yn llwyddiannus.

**Rhestr o addysgwyr**

- Coleg Caeredin
- Coleg Gorllewin Anglia
- Cyngor Midlothian
- Cyngor Caeredin
- Brave Juniors YMCA (gan ddefnyddio esports i ymgysylltu â myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio)
- Orielau Cenedlaethol
- Coleg Heddlu'r Alban
- Cyngor Gateshead
- Ysgol Uwchradd Lasswade
- Ysgol Uwchradd Hawick
- Ysgol Uwchradd Selkirk
- Ysgol Gynradd Brunstane
- Ysgol Gynradd Haddington
- Ysgol Gynradd James Gillespie
- Ysgol Uwchradd Liberton
- Ysgol Uwchradd Preston Lodge
- Live, Create, Teach – St Andrews
- Ysgol Uwchradd Queensferry
- Ysgol Gynradd Clovenstone
- Ysgol Gynradd Bruntsfield
- Ysgol Uwchradd All Saints
- Academi Galashiels